YR ATODLEN

DIWYGIADAU I DDEDDFWRIAETH SYLFAENOL: CREDYDAU TRETH

# RHAN 2

## DIWYGIADAU I DDEDDF CASGLU A RHEOLI TRETHI (CYMRU) 2016

**28.**—(1) Mae adran 128 o DCRhT (**1**) (terfyn amser ar gyfer asesu cosbau o dan Bennod 2) wedi ei diwygio fel a ganlyn.

(2) Yn is-adran (2)—

(a) hepgorer y "neu" ar ôl paragraff (a);

(b) ar ddiwedd paragraff (b) mewnosoder

", neu

(c) yn achos methiant i dalu swm sy'n daladwy mewn cysylltiad â chredyd treth, â'r dyddiad cosbi."

(3) Yn is-adran (3), ar ôl paragraff (b) mewnosoder—

"(c) yn achos methiant i dalu swm sy'n daladwy mewn cysylltiad â chredyd treth, diwedd y cyfnod apelio ar gyfer yr asesiad o'r swm yr asesir y gosb mewn cysylltiad ag ef."

(4) Ar ôl is-adran (4) mewnosoder—

"(4A) Yn is-adran (2)(c), mae i "dyddiad cosbi" yr ystyr a roddir gan adran 123A(3)."

(5) Yn is-adran (5), yn y geiriau cyn paragraff (a), hepgorer "(a) a (b)".

(**1**) Diwygiwyd adran 128 gan baragraff 47 o Atodlen 23 i DTTT.